# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 171(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Cwnsler Cyffredinol ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Senedd

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth

Heledd Fychan (Canol De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn sgil cyhoeddi Adolygiad Annibynnol Undeb Rygbi Cymru?

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

(0 munud)

## 6 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25

(30 munud)

**NDM8404** Ken Skates (De Clwyd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25, fel y pennir yn Nhabl 1 o Gyllideb Comisiwn y Senedd ar gyfer 2024-25, a osodwyd gerbron y Senedd ar 8 Tachwedd 2023, a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 (ii).

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil i atal gwerthu e-sigaréts untro

(30 munud)

**NDM8366** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n atal gwerthu e-sigaréts untro.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) atal e-sigaréts untro rhag cael eu gwerthu;

b) cyflawni cyfrifoldebau byd-eang Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

c) mynd i'r afael â'r ffaith bod e-sigaréts untro yn berygl i iechyd y cyhoedd;

d) diogelu cenedlaethau'r dyfodol rhag problemau iechyd gan gynnwys niwed i'r ysgyfaint; ac

e) rhoi'r gorau i ddefnyddio lithiwm mewn cynhyrchion untro.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Diwrnod Rhyngwladol y Dynion

(60 munud)

**NDM8405** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bod Diwrnod Rhyngwladol y Dynion 2023 yn cael ei gynnal ar 19 Tachwedd: digwyddiad blynyddol i dynnu sylw at bwysigrwydd cydnabod a mynd i'r afael â'r heriau iechyd meddwl a chorfforol y mae dynion yn eu hwynebu.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8395** Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru)

Mynediad at ofal ysbyty yn y de-ddwyrain

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2023

## Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 08/11/2023 i'w hateb ar 15/11/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYFIAWNDER CYMDEITHASOL A'R PRIF CHWIP

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

1 OQ60230 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch mynd i'r afael â bwlio gwrth-LHDTC+ mewn ysgolion?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

2 OQ60219 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ystyried gwneud cais i fod yn rhan o fynegai 'Rainbow Europe' yr International Lesbian and Gay Association er mwyn mesur cynnydd yn erbyn y nod o fod yn wlad LHDT-gyfeillgar?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

3 OQ60237 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi banciau bwyd ym Mlaenau Gwent?

**Ken Skates** *De Clwyd*

4 OQ60213 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

5 OQ60224 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith digartrefedd ar nod Llywodraeth Cymru o hyrwyddo ffyniant a threchu tlodi?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

6 OQ60238 **(e)**

Beth wnaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi Wythnos Cyflog Byw?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

7 OQ60215 **(w)**

Sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ60251 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn gweithio gyda'r heddlu a'r gwasanaethau tân i sicrhau amseroedd ymateb digonol?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

9 OQ60229 **(e)**

Beth yw asesiad presennol Llywodraeth Cymru o gydlyniant cymunedol yng Nghymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

10 OQ60222 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y strategaeth tlodi plant newydd?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

11 OQ60240 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o rôl darpariaeth blynyddoedd cynnar o ran mynd i'r afael â thlodi plant?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

12 OQ60236 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pobl fyddar sydd yn defnyddio Iaith Arwyddo Prydain i gyfathrebu yn cael eu cefnogi pan maent yn dod i gysylltiad gyda gwasanaethau cyhoeddus fel y gwasanaeth iechyd ac awdurdodau lleol?

## CWNSLER CYFFREDINOL A GWEINIDOG Y CYFANSODDIAD

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

1 OQ60249 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith bil tybaco a fêps arfaethedig Llywodraeth y DU ar gymwyseddau datganoledig yng Nghymru?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ60245 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch effaith Araith y Brenin ar gyfiawnder troseddol yng Nghymru?

3 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

OQ60231 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar fwrw ymlaen i ddiddymu Deddf Crwydraeth 1824?

4 **Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

OQ60252 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch goblygiadau diwygio'r Senedd ar gyfer y setliad datganoli?

5 **Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

OQ60216 **(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch datganoli'r system gyfiawnder i Gymru?

6 **Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ60228 **(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed o ran dyfarniad yr Uchel Lys yn achos R Shane Williams v Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ym mis Mehefin 2019 ynghylch cau canolfan hamdden Pontllanfraith?

7 **Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

OQ60232 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith y bil dedfrydu newydd a gyhoeddwyd yn Araith y Brenin ar lysoedd yng Nghymru?

8 **Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ60223 **(w)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei roi i Lywodraeth Cymru ynghylch y rhaglen diogelwch tomenni glo?

9 **Alun Davies** *Blaenau Gwent*

OQ60241 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o oblygiadau Araith y Brenin ar gyfer y setliad datganoli?

10 **Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

OQ60250 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor) Llywodraeth y DU ar gymwyseddau datganoledig yng Nghymru?

## COMISIWN Y SENEDD

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

1 OQ60226 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am y penderfyniad i wahardd GB News o systemau teledu'r Senedd?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

2 OQ60235 **(e)**

A wnaiff y Comisiwn ddatganiad am ddarparu gwasanaethau TGCh ar ystâd y Senedd?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ60227 **(w)**

Pa fesurau y mae Comisiwn y Senedd yn eu cymryd i helpu holl staff y Senedd yn ystod yr argyfwng costau byw?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

4 OQ60225 **(e)**

Pa gamau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd i wella cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg?